

# CYFIEITHU'R BEIBL?

Ers talwm iawn, Lladin oedd iaith pob gwasanaeth mewn eglwys.  
Lladin oedd iaith y Beibl oedd yn cael ei ddefnyddio.

Ar y pryd 'doedd pobl Cymru ddim yn deall Saesneg heb sôn am Ladin! Ac yn ystod y cyfnod pan roedd Elizabeth II yn Freninhes, roedd mwy a mwy o alw am Feibl Cymraeg.

Er mwyn bod yn boblogaidd gyda'r bobl, yn 1563 trefnodd Elizabeth bod Deddf yn cael ei phasio oedd yn sicrhau bod Beiblau ar gael yn iaith y bobl, o fewn 3 blynedd. Felly cafodd y Saeson Feiblau Saesneg a mi gafodd y Cymry Feiblau Cymraeg.

Ond ni ddaeth y Beibl Cymraeg tan 1588,  
15 mlynedd yn hwyr!

YR ESGOB WILLIAM MORGAN



# Y DDAU WILLIAM

Er ei bod wedi cymryd chwarter canrif i'r Beibl Cymraeg gyrraedd pobl Cymru, mi roedd dyn arall wedi bod wrthi'n cyfieithu'r Testament Newydd.

William Salesbury oedd y dyn hwnnw ac mae'n werth sôn amdano.  
Mi lwyddodd o i gyfieithu'r Testament Newydd erbyn 1567.

Ond William Morgan sydd yn cael y clod mwyaf am ei fod wedi cyfieithu'r Beibl i gyd.

Mi gymerodd hynny 10 mlynedd iddo wneud!



YR ESGOB WILLIAM MORGAN




# LLUNDAIN

Wedi iddo adael Coleg Caergrawnt, roedd William Morgan yn gallu siarad 6 iaith: Cymraeg, Saesneg, Lladin, Hebraeg, Groeg a Ffrangeg. Roedd hyn o fantais iddo wrth gyfieithu'r Beibl.

Cafodd Beibl William Morgan ei argraffu (printio) yn Llundain achos yno roedd y peiriannau gorau ar y pryd. Ond nid oedd staff y cwmni argraffu yn deall Cymraeg ac felly ddim yn gallu gweld os oedd camgymeriadau.

Felly bu'n rhaid i William Morgan fynd i Lundain am flwyddyn i ddarllen a chywiro'r Beibl Cymraeg newydd wrth iddo gael ei argraffu.



YR ESGOB WILLIAM MORGAN



# EFFAITH CYFIEITHU'R BEIBL

Erbyn 1588 felly mi roedd Beiblau Cymraeg ar gael i bobl Cymry.

Ond yn y cyfnod rhaid cofio nad oedd y Cymry'n darllen llyfrau achos nid oedd llyfrau ar gael!

Ond achos bod crefydd yn bwysig i'r Cymry, a Beibl ar gael yn yr eglwys, dyma'r llyfr cyntaf i lawer o bobl ei weld a'i ddarllen yn eu bywydau.

Cafodd hynny effaith bositif iawn ar yr iaith Gymraeg.

Felly, crefydd a Beibl Cymraeg oedd y ddau beth a wnaeth sicrhau bod ein hiaith ni wedi parhau hyd heddiw.



YR ESGOB WILLIAM MORGAN



# DYWEDWCH CHI

Pam ydych chi'n meddwl y cafodd y Beibl ei gyfieithu  
i Gymraeg yn 1588?

Ai William Morgan oedd yr unig un i gyfieithu'r Beibl?

Sawl iaith oedd o'n siarad i gyd, a pham bod hynny'n bwysig?

Pam oedd yn rhaid iddo dreulio blwyddyn yn Llundain?

A oedd cyfieithu'r Beibl yn beth da i'r iaith Gymraeg?



YR ESGOB WILLIAM MORGAN

